

Prifysgol Aberystwyth

Adran Gyllid

Gwybodaeth am Breifatrwydd Data

1. Eich manylion personol a'r Brifysgol

Bydd Prifysgol Aberystwyth, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel rheolwr data, yn prosesu'r data personol hwn yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Dyma fanylion cyswllt Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol: Jonathan Davies – infocompliance@aber.ac.uk.

<https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/dp/>

2. Defnyddio a chadw'r wybodaeth amdanoch

Mae'n bosib y byddwn yn casglu a phrosesu gwybodaeth am fyfyrwyr a'r staff:

- Drwy'r we, pan fyddwch yn llenwi ffurflenni'r adran gyllid
- Trwy'ch Cofnod Myfyriwr (Astra), sy'n cynnwys gwybodaeth am fyfyrwyr a staff
- Drwy wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo o adrannau eraill megis Adnoddau Dynol (Pobl Aber)

Efallai y byddwn yn defnyddio'r wybodaeth amdanoch mewn sawl ffordd wahanol, gan gynnwys:

- Gweinyddu agweddau ariannol ar astudiaethau myfyrwyr, megis ffioedd dysgu a llety
- Prosesu Archebion Gwerthu a Phrynu yn ôl yr angen er mwyn gosod cyfrifon cyflenwyr neu gwsmeriaid
- At Ddibenion Gweinyddu
- Galluogi'r brifysgol i gynhyrchu gwybodaeth ariannol i'w holl randdeiliaid

Bydd y wybodaeth yn cael ei chadw gan y Brifysgol oherwydd ei bod o'r farn bod hynny yn cyd-fynd â'i buddiannau dilys gan ei fod er budd i chithau fel y defnyddiwr ac i'r Brifysgol, a bod angen y wybodaeth er mwyn gallu cynnal ei phrosesau ariannol. Bydd y data amdanoch yn cael ei gadw'n ddiogel ar weinyddwyr y Brifysgol, am 6 mlynedd fel rheol.

3. Rhannu'r wybodaeth amdanoch

Bydd y Brifysgol, o dan rai amgylchiadau, yn datgelu gwybodaeth am fyfyrwyr (gan gynnwys data personol sensitif) i gyrff allanol awdurdodedig. Mae'r gyrff hynny'n cynnwys, ymhlith eraill:

- SLC - Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr
 - SUSI - Cymorth Cyffredinol Myfyrwyr Iwerddon
 - SAAS - Asiantaeth Grantiau Myfyrwyr yr Alban
 - ELCAS - Y Gwasanaeth Gweinyddu Credydau Dysgu Uwch
- Archwilwyr ac yswirwyr y Brifysgol
- Darparwyr allanol taliadau ar-lein diogel (WMP)

Bydd yr Adran Gyllid yn cadw gwybodaeth amdanoch yn ystod eich cyfnod fel myfyriwr, ac ar ôl y cyfnod hwnnw, ac efallai y bydd angen iddi gysylltu â chi ynghylch unrhyw ddyledion sydd heb eu talu. Os bydd yn briodol, efallai y trosglwyddir gwybodaeth i asiantaethau allanol ar gyfer ei phrosesau ac er mwyn i gamau priodol gael eu cymryd.

4. Ein dull o ddiogelu gwybodaeth bersonol

Mae'r holl ddata a gesglir drwy Adran Gyllid Prifysgol Aberystwyth yn cael ei gadw a'i brosesu'n ddiogel drwy ddilyn, â phob gofal, y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

5. Eich hawliau chi

Mae gennych hawl i gael gweld y wybodaeth amdanoch, i wrthwynebu prosesu data neu i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

6. Ceisiadau i dynnu gwybodaeth

Ni fydd unrhyw wybodaeth a rowch i'r adran gyllid yn cael ei rhoi drwy unrhyw fath o brosesu awtomatig.

Mae rhagor o wybodaeth am sut y defnyddir y wybodaeth amdanoch ym mhob rhan o'r brifysgol, am eich hawliau, ac am bwy y dylech gysylltu â nhw os oes gennych ymholiadau, ar gael yma:

Ceir mwy o wybodaeth am y Ddeddfwriaeth GDPR ar:

<https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/dp/>

Mae gwybodaeth am hawliau testunau data i'w chael yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/infocompliance/policies/dp/data-subject-rights/>